**Vaughan Gething AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Chwefror 2018

Annwyl gyfaill,

Mae nifer ohonoch wedi codi cwestiynau ynghylch y broses gaffael ar gyfer systemau meddyg teulu yng Nghymru a gafodd ei chyhoeddi ddydd Llun 29 Ionawr 2018. Rwy'n ysgrifennu at bob aelod i egluro'r broses a'r penderfyniadau a wnaed. Mae'r rhan fwyaf o'r ohebiaeth wedi canolbwyntio ar y ffaith na fu cais EMIS i barhau i ddarparu gwasanaethau systemau meddyg teulu yng Nghymru yn llwyddiannus. Gan fod cyfnod segur gorfodol Acatel wedi dod i ben, gallaf roi mwy o fanylion nawr i egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad ar ddyfarnu'r contract.

Cafodd y broses ei harwain gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar ran y Byrddau Iechyd, ac fe'i gweithredwyd drwy ddau strwythur er mwyn cyrraedd penderfyniad ynghylch pa ymgeiswyr i'w dewis.

Bwrdd Rhaglen Technoleg a Rheoli Gwybodaeth y Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol fu'n gyfrifol am oruchwylio'r broses gaffael. Mae aelodau'r bwrdd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Rheolwyr Meddygfeydd a Llywodraeth Cymru.

Dirprwywyd cyfrifoldeb dros weithredu'r prosiect i is-grŵp o'r Bwrdd Rhaglen (sef Pwyllgor Gweithredol y Prosiect), sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o Ymarferwyr Cyffredinol Cymru. Alan Lawrie, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, sy'n cadeirio'r Pwyllgor hwnnw.

Gwnaed argymhellion gan Bwyllgor Gweithredol y Prosiect er mwyn helpu'r Bwrdd Rhaglen i wneud y penderfyniad terfynol. Cyflwynwyd y penderfyniad wedyn i Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre iddo ei gymeradwyo.

O ran y penderfyniad y daethpwyd iddo, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi dweud yn glir na chafodd hwnnw ei wneud yn seiliedig ar gost. Ystyriwyd ystod eang o fesurau sgorio fel rhan o'r broses gaffael, ac nid oedd ymateb EMIS Health Ltd yn dod yn agos at fodloni'r gofynion. Rwy'n atodi copi o'r llythyr a anfonwyd ar y cyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, a'r Bwrdd Rhaglen at yr holl feddygfeydd a oedd yn defnyddio EMIS i egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyderaf fod hyn yn ddefnyddiol ichi ac yn dangos pa mor drylwyr oedd y broses gaffael o ran sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer gwariant cyhoeddus, ynghyd ag ymrwymiad cadarn a'r gallu i fodloni gofynion y Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol, yr agenda Gofal Sylfaenol ehangach a mwy o integreiddio â gwasanaethau digidol GIG Cymru.

Os oes gan feddygfeydd yn eich etholaethau ragor o gwestiynau ynghylch y broses gaffael a'i chanlyniad, hoffwn eich annog i'w trafod gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru drwy e-bostio [redacted]

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

At: Practisau Meddygon Teulu sy'n defnyddio systemau cyfrifiadur EMIS

9 Chwefror 2018

Annwyl Gyfaill

**Caffael Contract Fframwaith Systemau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol**

Yn dilyn ymlaen o'n llythyr dyddiedig 29 Ionawr 2018, ysgrifennwn atoch gyda mwy o wybodaeth am y penderfyniad yn ymwneud ag EMIS Health Ltd.

Rydym yn cydnabod fod newid cyflenwyr yn ymgymeriad sylweddol iawn ac mae'n destun siom fod EMIS Health Ltd wedi cyflwyno ymateb a oedd ymhell o fod yn bodloni'r gofynion, er gwaethaf cynnal deialog sylweddol yn ystod pob cam yn esbonio pam na fyddai eu newidiadau arfaethedig i ofynion GIG Cymru yn dderbyniol. Nid oedd y sefyllfa hon yn gyson â'r ymatebion gan Vision (InPractice Systems Ltd) a Microtest Ltd, a gafodd eu penodi i'r Fframwaith.

Canolbwyntiodd y gwerthusiad caffael ar sicrhau bod pob cyflenwr yn cynnig system a oedd yn bodloni'r gofynion gweithredol sylfaenol, yn ychwanegol at y cymorth ehangach, lefelau gwasanaeth, integreiddio gyda'r llwyfan technegol Cymreig, fforddiadwyedd, gwerth am arian, ac yn bwysig iawn, derbyn risg. Mae'r gofynion hyn yn adlewyrchu anghenion presennol Practisau Meddygon Teulu yn ogystal ag ymrwymiad i fodloni datblygiadau yn y dyfodol. Y gofynion na wnaeth EMIS Health Ltd ymrwymo i'w bodloni, yn fras, yw'r rheiny y maent eisoes wedi ymrwymo iddynt yn eu contract presennol gyda GIG Cymru.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl fod GIG Cymru wedi cynnig pob cyfle i bob cyflenwr fodloni'r gofynion cyhoeddedig. Roedd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o ganlyniadau tebygol peidio â bodloni'r gofynion yn llawn, a pheidio â chytuno i'r telerau ac amodau safonol, a ddefnyddir yn eang ledled y DU ar gyfer contractau TG mawr.

Yn fras, ni fyddai'r newidiadau yr oedd EMIS Health Ltd yn gofyn amdanynt, ym marn Pwyllgor Gweithredol Caffael Bwrdd y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, wedi gadael unrhyw fesurau o bwys i unioni methiannau a diffygion o fewn graddfa amser briodol, gan arwain at drosglwyddo risg annerbyniol, yn ariannol ac yn broffesiynol, i bractisau (a GIG Cymru).

Yn ogystal, ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Feddygol Prydain yn edrych ar ddiwygiad radical posibl i'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, roedd EMIS Health Ltd yn amharod i ymrwymo i unrhyw newidiadau gorfodol i systemau sy'n ofynnol i gefnogi unrhyw gontract newydd o'r fath. Roedd hyn yn amlwg yn annerbyniol o ran newidiadau strategol i wneud y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn addas i'r

dyfodol. Yn olaf, byddai nifer o ychwanegion allweddol, yn cynnwys ymarferoldeb llawn DocMan wedi bod yn gost ychwanegol i'r practis yn hytrach na chost wedi'i chynnwys yn unol â'r gofynion y cytunwyd arnynt.

Gyda'i gilydd, roedd gormod o feysydd lle'r oedd EMIS Health Ltd ond yn bodloni'r gofynion yn rhannol neu lle'r oeddent yn gwneud gormod o newidiadau i ddrafft y contract, a oedd yn cael effaith niweidiol ar GIG Cymru, neu'n cynyddu sefyllfa risg GIG Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddogfen gysylltiedig Cwestiynau Cyffredin. Fodd bynnag, roedd y prif feysydd pryder yn ymwneud â'r canlynol:

- Nid oedd EMIS Health Ltd yn fodlon ymrwymo i'r lefelau gwasanaeth gofynnol a datrys problemau'r system
- Roedd EMIS Health Ltd yn cadw'r hawl i godi'n ychwanegol, a gohirio cyflawni nifer o ofynion swyddogaethol craidd
- Roedd EMIS Health Ltd am gadw'r hawl i wrthod ceisiadau am unrhyw newidiadau yn y system yn y dyfodol
- Roedd EMIS Health Ltd yn pennu cyfyngiadau ar allu GIG Cymru i reoli'r cyflenwr i gyflawni'r argaeledd a'r perfformiad gofynnol

Ar hyn o bryd, rydym eisiau darparu sicrwydd pellach y bydd adnoddau ar gael trwy gydol y cyfnod trosglwyddo er mwyn helpu pob practis i newid cyflenwr. Byddwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw faterion yn ymwneud â chydweddoldeb meddalwedd trydydd parti er mwyn ceisio lliniaru unrhyw anfantais i bractisau.

Bydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu i helpu datblygu'r pecyn cymorth ac i gytuno ar y mecanweithiau gorau i helpu practisau drwy'r broses fudo. Os oes diddordeb gennych mewn cyfranogi yn y grŵp hwn, neu os oes unrhyw ymholiadau pellach gennych ynglŷn â'r caffael, anfonwch neges e-bost at [redacted]

Yn gywir

| Alan Lawrie | Dr Charlotte Jones | Andrew Griffiths |
|---|---|---|
| Cadeirydd, Bwrdd Rhaglen Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg | Cadeirydd, Pwyllgor | Cyfarwyddwr |

Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Meddygon Teulu Cymru

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru